Teitl y Rôl: **Darlithydd 2 -  Dysgu ac Ysgolheictod**

## CYFATHREBU

**Cyfathrebu Llafar:**
Yn aml, derbyn, deall a throsglwyddo gwybodaeth uniongyrchol mewn dull clir a chywir.

Yn aml, derbyn, deall a throsglwyddo gwybodaeth sydd angen esboniad neu ddadansoddiad gofalus i helpu eraill i'w deall, gan roi ystyriaeth i'r hyn sydd i'w gyfathrebu a'r ffordd orau i

Sefydlu, adeiladu neu arwain rhwydweithiau mewnol; cynnal cysylltiadau dros amser; sefydlu sianeli cyfathrebu i'ch hunan ac i eraill eu defnyddio er mwyn sicrhau y lledaenir gwybodaeth yn y fformat cywir i'r bobl gywir ar yr adeg gywir; adeiladu cysylltiadau er mwyn hwyluso rhannu gwybodaeth yn y dyfodol.

Sefydlu, adeiladu neu arwain rhwydweithiau y tu allan i'r sefydliad er mwyn sicrhau y lledaenir gwybodaeth yn y fformat cywir i'r bobl gywir ar yr adeg gywir; adeiladu cysylltiadau er mwyn hwyluso rhannu gwybodaeth yn y dyfodol.

## DARPARU GWASANAETH

### Prif Ffocws

Delio â chysylltiadau mewnol neu allanol sy'n gofyn am wasanaeth neu sy'n ceisio gwybodaeth; creu delwedd gadarnhaol o'r sefydliad drwy fod yn ymatebol ac yn gyflym wrth ymateb i geisiadau a chyfeirio'r defnyddiwr at y person cywir os oes angen.

Y cwsmer sydd fel arfer yn cychwyn y cyswllt, ac mae fel arfer yn cynnwys tasgau rheolaidd sydd â safonau neu weithdrefnau gosodedig.

### Ffocws Eilaidd

Delio â chysylltiadau mewnol neu allanol lle mae'r gwasanaeth fel arfer yn cael ei gychwyn gan ddeiliad y swyddi, gan weithio o fewn gweithdrefnau neu bolisïau cyffredinol y sefydliad; A / NEU ddeall ac archwilio anghenion y cwsmer; addasu'r gwasanaeth yn unol â hynny er mwyn sicrhau defnyddioldeb neu addasrwydd a safon y gwasanaeth.

## PROSESAU PENDERFYNU

Gwneud penderfyniadau annibynnol sy'n debygol o barhau am gryn dipyn ac sy'n dylanwadu'n bennaf ar/oddi mewn y tîm.

Bod â rhan mewn rhai penderfyniadau cydweithredol; sy'n bellgyrhaeddol, cymhleth, a hirymaros, a gweithio gydag eraill i gyrraedd y canlyniad gorau, sydd â dylanwad sylweddol.

Rhoi cyngor neu fewnbwn i gyfrannu at benderfyniadau pobl eraill fydd yn cael dylanwad o fewn terfynau cyfyngedig ac a all barhau am gryn dipyn.

## CYNLLUNIO A THREFNU ADNODDAU

### Gofynion Goblygedig

Cwblhau tasgau i gynllun gosodedig, gydag adnoddau sydd wedi'u clustnodi.

### Prif Ffocws

Cynllunio, blaenoriaethu a threfnu gwaith neu adnoddau ei hun i gyflawni amcanion a gytunwyd.

### Ffocws Eilaidd

Cynllunio, blaenoriaethu a threfnu gwaith neu adnoddau ei hun ac eraill o fewn ei faes ei hun yn ddyddiol, yn wythnosol neu'n fisol; cynllunio a rheoli projectau bach, gan sicrhau y defnyddir adnoddau'n effeithiol; derbyn a rhoi gwybodaeth i eraill er mwyn iddynt gwblhau cynllunio hwy; a monitro cynnydd yn erbyn y cynllun.

## MENTER A DATRYS PROBLEMAU

### Gofynion Goblygedig

Datrys problemau syml dydd-i-ddydd wrth iddynt godi; dewis rhwng nifer cyfyngedig o opsiynau sydd â chanlyniadau clir, drwy ddilyn canllawiau neu gyfeirio at yr hyn sydd wedi cael ei wneud yn flaenorol; a gwybod pryd y dylid cyfeirio problem at bobl eraill.

### Prif Ffocws

## AMGYLCHEDD GWAITH

### Prif Ffocws (neu ofynion goblygedig)

Gweithio mewn amgylchedd sy'n gymharol sefydlog ac nad yw'n effeithio llawer ar ddeiliad y swydd na'r ffordd y mae'r gwaith yn cael ei gwblhau.

### Ffocws Eilaidd (neu Brif ffocws)

Deall sut y gallai'r amgylchedd gwaith gael effaith ar ei waith ei hun neu waith cydweithwyr; cymryd camau safonol, o fewn canllawiau iechyd a diogelwch lle bo'n gymwys, i addasu i'r amgylchedd.

## GOFAL A LLES BUGEILIOL

Yn aml, dangos sensitifrwydd i'r rheiny y gall fod angen help arnynt, neu mewn achosion eithafol, sy'n dangos arwyddion o drallod amlwg; a chymryd camau priodol drwy gysylltu â'r bobl berthnasol.

Yn achlysurol, rhoi cyngor ar faterion lles neu ymholiadau cyffredin; dilyn gweithdrefnau lles safonol ar gyfer y sefydliad; gwybod pryd y dylid cyfeirio unigolyn i rywle arall i gael cymorth proffesiynol; a pharchu cyfrinachedd.

Yn achlysurol, rhoi cynhaliaeth, arweiniad neu ofal bugeiliol lle nad oes gweithdrefnau safonol bob tro yn bodoli; cynnal cyfrinachedd ac adeiladu ymddiriedaeth; penderfynu pryd i wrando, pryd i roi cyngor neu arweiniad a phryd i gyfeirio'r unigolyn i gael cymorth proffesiynol; bod yn ymwybodol o rwydweithiau cynnal i ddeiliad y swydd ac i'r unigolyn.

## DATBLYGU TÎM

***(dylid cynnwys hyfforddiant ar gyfer y rhai y tu allan i dîm y gwaith o dan Cefnogaeth Addysgu a Dysgu)***

Yn achlysurol, cynghori neu arwain dechreuwyr newydd yn gweithio yn yr un rôl neu uned ar wybodaeth neu weithdrefnau safonol.

Yn achlysurol, hyfforddi neu arwain pobl eraill ynglŷn â thasgau, materion neu weithgareddau penodol; rhoi cyngor, arweiniad ac adborth ar sail eich gwybodaeth neu'ch profiad chi; a chyflwyno hyfforddiant.

## CEFNOGAETH ADDYSGU A DYSGU

Datblygu agweddau arloesol ar y profiad dysgu a'r cwricwlwm; creu cynnwys a methodoleg er mwyn cyflwyno myfyrwyr neu bobl eraill sy'n newydd i'r maes i wybodaeth neu weithdrefnau safonol.

Datblygu agweddau arloesol ar y profiad dysgu a'r cwricwlwm; creu cynnwys a methodoleg er mwyn addysgu neu hyfforddi myfyrwyr neu bobl eraill am dasgau, materion neu weithgareddau penodol; asesu perfformiad a rhoi adborth yn ystod y digwyddiad.